

Polisi Gweinyddu Meddyginiaeth



Ysgol Y Login Fach

Efallai bydd angen i rai plant gymryd meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol, er eu bod yn ddigon iach i ddod i'r ysgol. Yn ogystal, efallai y bydd hi'n angenrheidiol i blant â salwch tymor hir neu salwch cronig megis asthma neu ddiabetes dderbyn meddyginiaeth. Bydd y canllawiau canlynol yn eich cyfeirio o ran y gweithdrefnau a'r trefniadau y dylid eu dilyn wrth ymdrin â'r mater hwn.

Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr

- Dylid rhoi meddyginiaeth yn yr ysgol pan y byddai'n niweidiol i iechyd y plentyn neu bresenoldeb yn yr ysgol i beidio â gwneud hynny. Lle y bo'n glinigol bosib, dylai meddyginiaeth gael ei rhagnodi ar adegau y tu allan i oriau ysgol a dylai rhieni/gofalwyr wneud trefniadau i weinyddu meddyginiaeth gartref. Serch hynny, pan fydd angen i fyfyrwr gymryd meddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol, rhaid i'r rhiant/gofalwr gwblhau ffurflen ganiatâd ysgrifenedig sy'n rhoi cyfarwyddiadau clir ynghylch y dos. Dylid derbyn nodyn gan y meddyg (neu weithiwr iechyd proffesiynol) hefyd sy'n nodi bod angen i'r feddyginiaeth gael ei chymryd yn ystod oriau ysgol.
- Rhaid i feddyginiaeth ragnodol fod yn gyfoes ac wedi'i labelu a dylai gyrraedd yr ysgol yn y cynhwysydd gwreiddiol fel a ragnodir gan fferyllydd a chynnwys cyfarwyddiadau i'w gweinyddu, y dos a sut i'w storio. Ac eithrio inswlin, a ddylai fod mewn pin neu bwmp, nad yw yn y cynhwysydd gwreiddiol.
- Ni ddylai plentyn dan 16 oed gael meddyginiaeth sy'n cynnwys asbirin oni ragnodir hyn gan feddyg. Ni ddylid byth rhoi meddyginiaeth heb wirio'r uchafswm dos a phryd y rhoddwyd y dos blaenorol.
- Dylai meddyginiaeth anrhagnodedig ddod yn ei chynhwysydd gwreiddiol mewn amlen sy'n nodi enw'r myfyriwr a'r dos i'w roi ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n nodi unrhyw sgîl effeithiau.
- Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr yw cynnal cyflenwadau digonol yn y cynhwysyddion diabetig.
- Rhaid rhoi cynnyrch llysieuol, cyfannol, homeopathig a/neu naturiol gartref.
- Cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad yw casglu unrhyw feddyginiaeth o'r ysgol pan na fydd angen i'r myfyriwr gymryd y feddyginiaeth honno mwyach. Os na chaiff ei chasglu, gwaredir y meddyginiaethau'n ddiogel.
- Mae'n bwysig bod rhiant/gwarcheidwad yn darparu cofnod cyfoes o'r rhifau ffôn gartref a gwaith rhag ofn bydd argyfwng.

Cyfrifoldeb yr Ysgol

- Staff y brif swyddfa sy'n gweinyddu meddyginiaeth o ddydd i ddydd. Rhoddir meddyginiaeth ar ôl i Ffurflen Caniatâd Rhieni gael ei chwblhau'n unig. Cedwir ffurflenni caniatâd mewn ffeil yn y brif swyddfa.
- Dylid storio'r holl feddyginiaethau'n ddiogel. Dylai myfyrwyr wybod lle mae'r meddyginiaethau ar bob adeg ac yn gallu cael gafael arnynt yn syth. Dylai meddyginiaethau a dyfeisiau megis mewnanadlydd asthma, mesuryddion profi glwcos y gwaed a phinnau adrenalin gael eu storio'n ddiogel ond nid eu cloi i ffwrdd.
- Gall staff weinyddu meddyginiaethau'n unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr. Cedwir cofnod o'r holl feddyginiaeth a weinyddir i fyfyrwyr unigol, gan nodi beth, sut a faint a roddwyd.
- Bydd meddyginiaeth sydd ei hangen mewn argyfwng ar gael yn hwylus. Dylai mewnanadlwyr gael eu cario gan fyfyrwyr lle bynnag y bo'n bosib; gellir gadael mewnanadlwr sbâr yn y brif swyddfa a dylid ei nodi'n glir ag enw'r myfyriwr.
- Cedwir llyfr meddygol i gofnodi'r defnydd o inswlin gan yr holl fyfyrwyr diabetig. Cedwir inswlin mewn cabinet yn y brif swyddfa. Caiff cynwysyddion 'hypo' diabetig eu labeli'n glir a'u cadw mewn cwpwrdd yn y brif swyddfa.
- Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda nyrs yr ysgol/meddyg/ysbyty a'r rhieni i helpu myfyrwyr ag anghenion meddygol tymor hir neu gymhleth a'u hunanreolaeth o feddyginiaeth.
- Pan fydd taith ysgol wedi'i threfnu, mae'r ysgol yn gofyn i unrhyw feddyginiaeth gael ei rhoi i'r aelod o staff a neilltuir i roi'r feddyginiaeth. Yna bydd yr aelod o staff hwn yn cwblhau manylion y feddyginiaeth a'r gofynion gweinyddu yn y llyfr meddygol a bydd hefyd yn nodi'r feddyginiaeth a roddir yn ystod gwibdaith ysgol.
- Gofynnir am gymeradwyaeth cyn mynd ar wibdaith ysgol o ran gweinyddu meddyginiaeth sylfaen fel paracetamol. Os bydd angen meddyginiaeth ar fyfyrwr yn ystod gwibdaith ysgol, bydd y ffurflen caniatâd rhieni'n cael ei gwirio ac os yw'n briodol, rhoddir meddyginiaeth o gyflenwad yr ysgol.
- Dylai unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i gymryd cyfrifoldeb am weinyddu meddyginiaethau a ragnodir i berson ifanc gael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol gan weithwyr iechyd proffesiynol. Dylai fod yn ymwybodol o unrhyw sgil effeithiau'r feddyginiaeth a'r hyn i'w wneud os bydd hyn yn digwydd. Dylai'r ysgol a'r aelod o staff, gadw cofnod ysgrifenedig o'r hyfforddiant a'r caniatâd i gynnal gweithdrefnau.

Mabwysiadu'r Polisi

Dyddiad y cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr:

Dyddiad adolygiad:

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: